**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Ken Skates AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith

23 Medi 2016

Annwyl Ken

**Is-ddeddfwriaeth i gefnogi Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016**

Cyfeiriaf at eich datganiad ysgrifenedig dyddiedig 11 Gorffennaf 2016 ynghylch yr ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth i gefnogi Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Trafododd y Pwyllgor y datganiad yn ein cyfarfod ar 12 Medi 2016.

Wrth adrodd ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), nododd y Pwyllgor a oedd yn ein rhagflaenu y byddai'n well pe bai Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Bil cyfunol. Rydym yn cefnogi'r farn hon.

Serch hynny, o gofio penderfyniad Llywodraeth Cymru, rydym yn croesawu eich datganiad yn fawr iawn a'r dull gweithredu y mae'n ei nodi mewn perthynas â gweithredu is-ddeddfwriaeth i gefnogi darpariaethau Deddf 2016.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn ar gyfer pob deddf wrth gynllunio i gyflwyno unrhyw is-ddeddfwriaeth gyfatebol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Arweinydd y Tŷ.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.